# Teulu Wartski/The Wartski Family



*Morris a Flora Wartski gyda'u plant, tua 1894.*
*Delwedd trwy garedigrwydd Wartski, Llundain.*
*Morris and Flora Wartski with their children, circa 1894.*
*Image courtesy of Wartski, London.*

Ganwyd Morris Wartski yn Turek ger Kalisz, Gwlad Pwyl ym 1855. Cyrhaeddodd Fangor, gan ddechrau fel gwerthwr gemwaith, gan sefydlu ei siop gyntaf ym 1891.

Ym 1903, cafodd ei fab, Charles, bron â chael ei barlysu mewn damwain beicio. Ym 1909, symudodd Morris ei deulu i Landudno yn y gobaith y byddai 'awyr iach y môr' o fudd iddo. Agorodd Morris siopau yn 33 Stryd Mostyn ac yn 93 Stryd Mostyn (lle gellir gweld ei fynedfa fosaig o hyd).

Charles a'i frawd, Harry, oedd yn rheoli 33 Stryd Mostyn nes i Charles farw ym 1914 yn 34 oed. Effeithiodd ei farwolaeth yn fawr ar Morris ac ymroddodd i fywyd cymunedol, gan roi'n hael i achosion lleol hyd at ei farwolaeth ym 1946, yn 92 oed. Treuliodd Harry weddill ei oes yn Llandudno, gan barhau i fod yn rheolwr gyfarwyddwr C & H Wartski. Bu farw yn y siop, yn 74 oed, ym 1958.



*93 Stryd Mostyn. Credyd delwedd Llwybr Treftadaeth Iddewig Llandudno.*
*93 Mostyn Street. Image credit The Llandudno Jewish Heritage Trail.*

Priododd eu chwaer, Harriette, ag Emanuel Snowman yn synagog Llandudno ym 1909, o flaen 400 o westeion gyda 1,000 o bobl arall ar y stryd. Roedd Snowman yn gweithio yn y siop ond, gan ei chael hi'n gyfyngedig, agorodd gangen yn 13 New Bond Street yn Llundain ym 1913.

Heddiw, mae'r busnes rhyngwladol enwog yn parhau i fasnachu mewn gemwaith cain ac *objets d'art* o'u siop ar Stryd St James's, sy'n arddangos gwreiddiau Cymreig y cwmni yn falch.

Morris Wartski was born in Turek near Kalisz, Poland in 1855. He arrived in Bangor, starting as a jewellery pedlar, before establishing his first shop in 1891.




*Wartski's, St James's Street , Llundain.*
*Credyd delwedd: Nathan Abrams.*
*Wartski's, St James's Street, London.*
*Image credit: Nathan Abrams.*

In 1903 his son, Charles, was almost paralysed in a cycling accident. In 1909, Morris moved his family to Llandudno in the hope that 'the healthy sea air' would benefit him. Morris opened shops at 33 and 93 Mostyn Street ( where his mosaic entryway can still be seen).

Charles and his brother, Harry, managed 33 Mostyn Street until Charles died in 1914 at the age of 34. His death affected Morris greatly, and he immersed himself in community life, giving generously to local causes until his death in 1946 at age 92. Harry spent the rest of his life in Llandudno, remaining the managing director of C & H Wartski. He died in the shop at 74 in 1958.

Their sister, Harriette, married Emanuel Snowman in Llandudno synagogue in 1909, in front of 400 guests with a further 1,000 people lining the street. Snowman worked in the shop but, finding it constraining, opened a branch at 13 New Bond Street in London in 1913.

Today, the internationally renowned business continues to trade in fine jewellery and *objets d'art* from its store on St. James's Street, which proudly displays the firm's Welsh roots.

Rydym yn ddiolchgar i ymddiriedolwyr Cronfa Marc Fitch am grant tuag at gostau'r prosiect hwn.
We are grateful to the trustees of the Marc Fitch Fund for a grant towards the costs of this project.

Gyda diolch i Brifysgol Bangor am eu cymorth.
With thanks to Bangor University for their assistance.